**11.1** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **19C1047D** Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Mr Brett Collett**
**BC Services (Anglesey) Ltd**
**Cerrig Baban**
**Caergeiliog**
**Holyhead**
**Ynys Môn**
**LL65 3YL**

Cais llawn ar gyfer codi dau annedd ar dir yn

Full application for the erection of two dwellings on land at

Jadesville, Mount Pleasant, Holyhead



**Pwyllgor Cynllunio: 02/03/2011**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio(SCR)**

**Argymhelliad:**

Caniatau

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Mae partner yr ymgeisydd yn cael ei gyflogi gan yr awdurdod lleol.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Mae safle'r cais o fewn y ffin ddatblygu yng Nghynllun Lleol Ynys Môn ac yn y Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd. Eiddo gwag wedi'i ddinistrio gan dân oedd ar y safle. Cais yw hwn i godi dwy annedd bar.

Mae'r safle mewn ardal sydd yn un preswyl gan mwyaf ac yn gorwedd y tu allan i ffin Ardal Cadwraeth Caergybi. Yng nghefn y safle mae Meddygfa, gyda phriffordd y tu blaen.

Fe roddwyd caniatâd cynllunio yn ddiweddar ar weddill y plot i godi tair annedd ddeulawr.

**2. Mater(ion) Allweddol**

Materion allweddol y cais yw - a yw'r datblygiad yn cydymffurfio gyda pholisïau cyfredol ac a fydd y cynnig yn cael effaith ar fwynderau eiddo cyfagos a'r dirwedd o gwmpas.

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Lleol Ynys Môn**

Polisi 1 – Polisi Cyffredinol
Polisi 42 – Dyluniad
Polisi 48 – Meini Prawf Datblygu Tai
Polisi 49 - Anheddau Diffiniedig

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

Polisi A2 - Tai
Polisi D4 – Lleoliad, safle a dyluniad
Polisi D28 – Dyluniad
Polisi D29 – Dyluniad

**Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd**

Polisi GP1 – Rheoli Datblygu
Polisi GP2 – Dyluniad
Polisi HP3 – Datblygiad Tai Newydd – Prif Ganolfannau a Chanolfannau Eilaidd
Polisi SG4 – Gwaredu Carthffosiaeth
Polisi SG6 – Rhediad Dwr Wyneb

Polisi Cynllunio Cymru – Gorffennaf 2010

Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol – Cyfarwyddyd Dylunio ar gyfer yr Amgylchedd Trefol a Gwledig

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Aelod Lleol – Dim ymateb hyd yn hyn

Cyngor Tref Caergybi – Dim gwrthwynebiad

Draenio – Sylwadau safonol

Dwr Cymru - Yn argymell rhoi caniatâd amodol

Priffyrdd – Dim gwrthwynebiad

Rhoddwyd cyhoeddusrwydd mewn dwy ffordd i'r cais. Gosodwyd rhybudd ger y safle a rhoddwyd rhybuddion personol i ddeiliaid eiddo cyfagos. Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn sylwadau oedd 2 Chwefror, 2011. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad nid oedd unrhyw lythyrau wedi'u derbyn yn yr adran.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

19C1047 – Dymchwel yr annedd bresennol, codi 5 ty tref, 2 lofft a chreu mynedfa i gerbydau yn Jadesville, Mount Pleasant, Caergybi. Dychwelwyd i'r ymgeisydd 25/11/09

19C1047A – Dymchwel yr annedd bresennol a chodi tri ty tref dwy lofft yn Jadesville, Mount Pleasant, Caergybi. Caniatau 01/12/10

19C1047B – Rhybudd blaenorol i ddymchwel yr annedd bresennol yn Jadesville, Mount Pleasant, Caergybi. Caniatau 16/04/10

19C1047C/CA – Caniatad ardal cadwraeth i symud coed ar dir ger Jadesville, Mount Pleasant, Caergybi. Caniatau 13/08/10

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

**Cyd-destun Polisi**: Ystyrir bod y safle yn un derbyniol ar gyfer ei ddatblygu gan fod safle'r cais o fewn ffin ddatblygu Caergybi. Mae Polisi 49 o Gynllun Lleol Ynys Môn, Polisi HP3 yn y Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd a Pholisi A2 o Gynllun Fframwaith Gwynedd yn dweud y bydd datblygiadau tai newydd yn cael eu caniatau ar safleoedd a ddyrannwyd neu ar safleoedd addas arall o fewn y ffin ddatblygu.

**Effaith ar fwynderau eiddo cyfagos** – Fe all y safle dderbyn 2 annedd heb iddynt gael effaith ar fwynderau eiddo cyfagos. Ni fydd y cynnig yn achosi unrhyw edrych drosodd na cholli preifatrwydd i'r eiddo cyfagos. Er mwyn sicrhau na fydd unrhyw newidiadau yn y dyfodol yn cael effaith ar eiddo cyfagos bydd amod Datblygiad a Ganiateir yn cael ei gynnwys yn y rhybudd penderfyniad er mwyn diogelu mwynderau'r deiliaid presennol a rhai'r dyfodol. Nid oes unrhyw agoriadau yn nhalcen yr anheddau arfaethedig a bydd hynny'n sicrhau na fydd y cynnig yn effeithio ar fwynderau deiliaid yr eiddo cyfagos.

**Effaith ar yr ardal o amgylch a'r Ardal Gadwraeth gyfagos** - Ystyrir bod dyluniad a deunyddiau arfaethedig yr anheddau yn dderbyniol a'u bod yn debyg i rai'r anheddau sydd o gwmpas ar y safle ac felly ni ddylent gael effaith ar y dirwedd o gwmpas sydd wedi'i ddynodi fel Ardal Gadwraeth Caergybi. Bydd y deunyddiau yn gweddu gyda rhai'r tair annedd gyfagos sydd yn cael eu hadeiladu ar hyn o bryd.

**7. Casgliad**

Gall y safle gymryd y cynnig heb i hynny achosi i'r safle gael ei orddatblygu ac ni fydd yn cael effaith ar ddeiliaid yr eiddo cyfagos na'r ardal o gwmpas.

**8. Argymhelliad**

**Caniatau**

**(01) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn a fo o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm: Ufuddhau i anghenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02) Rhaid i ddŵr wyneb a dŵr budr ddraenio o'r safle ar wahân.**

Rheswm: Er mwyn gwarchod y cyfan o'r garthffos gyhoeddus.

**(03) Ni chaniateir i ddŵr wyneb lifo yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i'r sustem garthffosiaeth gyhoeddus onibai y gytunwyd yn ysgrifenedig gyda'r awdurdod cynllunio lleol.**

Rheswm: Atal gormod o ddŵr rhag llifo i'r sustem garthffosiaeth gyhoeddus, gwarchod iechyd a diogelwch preswylwyr a sicrhau na chaiff yr amgylchedd ei niweidio.

**(04) Ni chaiff dŵr draenio tir arllwys yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol i'r system garthffosiaeth gyhoeddus.**

Rheswm: Rhwystro gormod o ddŵr rhag llifo i'r system garthffosiaeth gyhoeddus a llygru'r amgylchedd.

**(05) Rhaid i'r annedd a ganiateir yma fod wedi'i hadeiladu i gyrraedd isafswm Cod Cartrefi Cynaliadwy Lefel 3 a chyrraedd o leiaf 6 o gredydau o dan gategori Ene 1 - 'Graddfa Allyrru Annedd' - yn unol â gofynion y Cod Cartrefi Cynaliadwy: Cyfarwyddyd Technegol 11 Tachwedd 2010 (neu unrhyw fesur cyfatebol wedi hynny ac/neu safon neu fel a gytunwyd yn ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol). Rhaid adeiladu'r datblygiad yn hollol unol â'r asesiad a'r ardystiad fydd wedi'i gymeradwyo.**

Rheswm: I liniaru achosion newid yn yr hinsawdd a sicrhau geynwch yn erbyn newidiadau yn yr hinsawdd a ragwelir i'r dyfodol.

**(06) Ni chaniateir dechrau adeiladu'r annedd a ganiateir yma hyd nes bo 'Tystysgrif Interim' wedi'i chyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, ac wedi derbyn ei ganiatâd ysgrifenedig, yn ardystio bod isafswm Cod Cartrefi Cynaliadwy Lefel 3 ac o leiaf 6 o gredydau o dan 'Ene 1 - 'Graddfa Allyrru Annedd' wedi'i gyrraedd ar gyfer yr annedd yn unol â gofynion y Cod Cartrefi Cynaliadwy : Cyfarwyddyd Technegol 11 Tachwedd 2010 (neu unrhyw fesur cyfatebol wedi hynny ac/neu safon, neu fel a gytunwyd yn ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol).**

Rheswm: I liniaru achosion newid yn yr hinsawdd a sicrhau geynwch yn erbyn newidiadau yn yr hinsawdd a ragwelir i'r dyfodol.

**(07) Cyn bod neb yn byw yn yr annedd a ganiateir yma, rhaid cyflwyno 'Tystysgrif Terfynol' Cod Cartrefi Cynaliadwy i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a derbyn ei ganiatâd ysgrifenedig, yn ardystio bod isafswm Cod Cartrefi Cynaliadwy Lefel 3 ac isafswm o 6 credyd o dan 'Ene 1 - 'Graddfa Allyrru Annedd' wedi'i gyrraedd ar gyfer yr annedd yn unol â gofynion y Cod Cartrefi Cynaliadwy : Cyfarwyddyd Technegol 11 Tachwedd 2010 (neu unrhyw fesur cyfatebol wedi hynny ac/neu safon neu fel a gytunwyd yn ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol).**

Rheswm: I liniaru achosion newid yn yr hinsawdd a sicrhau geynwch yn erbyn newidiadau yn yr hinsawdd a ragwelir i'r dyfodol.

**(08) Rhaid ymgymryd a'r datblygiad a ganiateir gan y caniatâd hwn yn fanwl yn ôl y cynllun a gyflwynwyd ar y 20/12/10 o dan cais cynllunio rhif. 19C1047D.**
Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.

**9. Polisïau Perthnasol Eraill**

Dim

**10. Ymatebion Eraill Di-Faterol a Godwyd**

Dim

**11.2** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **20C267** Application Number

Ymgeisydd Applicant

**Mr Mattew Cave**
**11 Llys Meddyg**
**Bodedern**
**Ynys Mon**
**LL65 3UJ**

Addasu ac ehangu ynhgyd a codi garej yn

Alterations and extensions together with the erection of a garage at

Glan Rhyd, Llanfechell



**Pwyllgor Cynllunio: 02/03/2011**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio(DO)**

**Argymhelliad:**

Caniatau

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Mae'r cais wedi'i gyflwyno gan fab i Swyddog sy'n gweithio i'r awdurdod.  O dan y Cyfansoddiad, rhaid adrodd ar y cais hwn i'r Pwyllgor Cynllunio ar gyfer ei ystyried a'i benderfynu.

Mae'r cais wedi'i sgriwtineiddio gan y Swyddog Monitro fel sy'n ofynnol o dan baragraff 4.6.10.4 y Cyfansoddiad

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Mae'r eiddo wedi'i leoli oddi ar yr A5025 rhwng Llanrhuddlad a Tregele.

Cynnig yw hwn i godi estyniad deulawr yng nghefn yr eiddo a chodi ports yn ffrynt yr eiddo ynghyd â chodi garej sengl ar wahân gyda tho crib.

**2. Mater(ion) Allweddol**

Mater allweddol yw – a yw lleoliad a dyluniad y gwaith altro ac ymestyn arfaethedig ynghyd â chodi'r garej ar wahân yn dderbyniol ac a fydd y cynnig yn cael effaith andwyol ar fwynderau deiliaid eiddo cyfagos.

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Lleol Ynys Mon**

1 – Polisi Cyffredinol
42 – Dylunio
58 – Ehangu

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

D4 – Lleoliad, Gosodiad a Dyluniad
D29 – Dylunio

**Cynllun Datblygu Unedol a Stopwyd**

GP1 – Cyfarwyddyd Rheoli Datblygu
BP2 – Dylunio

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Aelod Lleol – Dim ymateb adeg ysgrifennu'r adroddiad

Dwr Cymru - Dim ymateb adeg ysgrifennu'r adroddiad

Cyngor Cymuned - Dim ymateb adeg ysgrifennu'r adroddiad

Priffyrdd – Dim argymhelliad

Draenio – Sylwadau

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

Dim

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

Mae'r cynnig hwn yn golygu codi estyniad deulawr yng nghefn yr eiddo lle ceir ystafell fwyta ac ystafell amlbwrpas ar y llawr isaf a llofft ac ystafell ymolchi ar y llawr cyntaf, hefyd codi ports yn ffrynt yr annedd. Mae'r cynnig hefyd yn golygu codi garej sengl ar wahân o fewn y cwrtil.

Ystyrir bod safle, dyluniad, maint a deunyddiau'r estyniadau ar garej arfaethedig yn dderbyniol ac ni ystyrir y bydd y cynnig yn cael effaith annerbyniol ar fwynderau deiliaid eiddo cyfagos.

**7. Casgliad**

Ystyrir bod yr estyniad arfaethedig a'r garej ar wahân yn dderbyniol o osod amodau.

**8. Argymhelliad**

**Caniatau**

**(01) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn a fo o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm: Ufuddhau i anghenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02) Rhaid ymgymryd a'r datblygiad a ganiateir gan y caniatâd hwn yn fanwl yn ôl y cynllun a gyflwynwyd ar y 08/12/10 o dan cais cynllunio rhif. 20C267.**

Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.

**9. Polisïau Perthnasol Eraill**

TAN12 – Dylunio

CCA:Cyfarwyddyd Dylunio ar gyfer yr Amgylchedd Trefol a Gwledig.

**10. Ymatebion Eraill Di-Faterol a Godwyd**

Dim.